**Hedfanaeth, Porthladdoedd a Logisteg**
**Aviation, Ports and Logistics**
**Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol**
**National & International Connectivity**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf / Your ref - 10995/76/PFI
Ein cyf/ Our ref - WGHRO-2020-02

David Walker
Winckworth Sherwood LLP
dwalkers@wslaw.co.uk
(e-bost yn unig)

24 Mai 2022

Annwyl Mr Walker,

**Deddf Harbyrau 1964**
**Gorchymyn Adolygu Harbwr Abertawe (Cau Doc Tywysog Cymru) 2022**

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried eich cais am Orchymyn Adolygu Harbwr Abertawe (Cau Doc Tywysog Cymru) 2022 (y "Gorchymyn"), y gwnaethoch gais amdano ar ran Associated British Ports (yr "Ymgeisydd") o dan adran 14 o Ddeddf Harbyrau 1964 ("Deddf 1964") ar 2 Medi 2020.

2. Mae'r swyddogaeth o benderfynu a ddylid gwneud y Gorchymyn ai peidio wedi'i throsglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 29 o Ddeddf Cymru 2017. Mae'r penderfyniad yn dod o dan gyfrifoldeb Lee Waters, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru, fel y Gweinidog priodol at ddibenion Deddf 1964.

**Crynodeb o'r Penderfyniad**

3. Mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wedi awdurdodi gwneud y Gorchymyn heb ei ddiwygio'n sylweddol.

4. Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer cau Doc Tywysog Cymru (y "Doc") ym Mhorthladd Abertawe (y "Porthladd"), gan gynnwys rhoi'r gorau i:

    a. gyfrifoldebau statudol yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r Doc;
    b. pob hawl mordwyo mewn perthynas â'r Doc; a'r
    c. rhwymedigaeth i gynnal mynediad mordwyo i'r Doc o weddill y Porthladd.

5. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn ofynnol cau'r Doc i adlewyrchu amgylchiadau presennol y Porthladd ac y bydd cau'r Doc yn sicrhau bod modd i'r Porthladd gael ei reoli mewn modd effeithlon a darbodus at ddiben adran 14(2) (b) o Ddeddf Harbyrau 1964. Mae Gweinidogion Cymru hefyd o'r farn bod y cais yn cyd-fynd â Chod Diogelwch Morol Porthladdoedd (y "Cod")[1], a gyhoeddir gan yr Adran Drafnidiaeth ac a gymeradwyir gan y gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r Cod yn

[1] Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (publishing.service.gov.uk)

nodi safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd ar ddiogelwch morol porthladdoedd ac, er nad yw'n orfodol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob awdurdod harbwr yng Nghymru gydymffurfio.

**Cefndir**

6. Yr Ymgeisydd yw'r awdurdod harbwr statudol ar gyfer y Porthladd y mae'r Doc yn rhan ohono. Ailgyfansoddwyd yr Ymgeisydd o dan Ddeddf Trafnidiaeth 1981 fel yr olynydd statudol i Fwrdd Dociau Trafnidiaeth Prydain a grëwyd ym 1962 ar ôl diddymu Comisiwn Trafnidiaeth Prydain (a sefydlwyd yn ei dro ym 1947 yn dilyn gwladoli'r porthladdoedd a oedd o dan reolaeth y cwmnïau rheilffyrdd a chamlesi). Mae'r hyn a etifeddwyd gan Fwrdd Dociau Trafnidiaeth Prydain yn cynnwys y pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd gan ddeddfwriaeth leol mewn perthynas â'r Porthladd.

7. Awdurdodwyd y Doc yn wreiddiol gan Ddeddf Harbwr Abertawe 1874. Cafodd hyn ei ymestyn gan Ddeddf Harbwr Abertawe 1894 a rhoddwyd cyfrifoldebau pellach gan Ddeddf Harbwr Abertawe 1901. Cafodd y swyddogaethau mewn perthynas â'r Doc a roddwyd yn wreiddiol i Ymddiriedolwyr Harbwr Abertawe eu trosglwyddo wedyn i'r Great Western Railway Company cyn eu trosglwyddo i Gomisiwn Trafnidiaeth Prydain fel y nodwyd uchod.

8. Yn ystod ei oes, mae'r Doc wedi allforio mwynau lleol megis glo a metelau. Yn fwy diweddar, ac o ystyried y dirywiad mewn allforion deunydd crai o'r DU, roedd y Doc wedi hwyluso mewnforio agregau a garthwyd o'r môr, ond ers 2017 mae'r gweithgarwch hwn wedi'i adleoli i gyfleusterau eraill mwy addas. Wrth asesu dyfodol y Doc, mae'r Ymgeisydd wedi ystyried y ffactorau hyn ochr yn ochr â chyfyngiadau ffisegol (yn arbennig, yr angen i gael mynediad i'r Doc drwy fordwyo drwy'r llwybr cul), yn ogystal â chyfleusterau porthladd eraill, mwy addas sydd ar gael yng ngweddill y Porthladd ac yn lleol. Ar hyn o bryd, nid yw'r Doc yn cael ei ddefnyddio at ddibenion porthladd, a'r unig ddefnydd a wneir ohono ar hyn o bryd yw at ddibenion gweithgareddau chwaraeon dŵr, defnydd nad yw'n cael ei effeithio gan gau'r Doc.

9. Mae'r Ymgeisydd wedi dod i'r casgliad ei bod yn annhebygol iawn y byddai angen i'r Doc gael ei ddefnyddio at ddibenion porthladd yn y dyfodol, felly mae cau'r Doc yn ddymunol er mwyn rheoli'r Porthladd mewn modd effeithlon a darbodus gan ei fod yn dileu'r rhwymedigaeth i gynnal cyfleuster o fewn y Porthladd nad oes ei angen mwyach.

10. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau harbwr adolygu eu pwerau a'u hawdurdodaeth yn barhaus ac ystyried y gwahanol fecanweithiau megis gorchmynion harbwr sydd ar gael i ddiwygio pwerau statudol yn neddfwriaeth leol awdurdod. Yn unol â'r gofyniad hwn, mae'r Ymgeisydd wedi adolygu ei bwerau mewn perthynas â'r Porthladd ac wedi dod i'r casgliad nad oes angen parhau i gynnal y Doc at ddefnydd porthladd. Felly, ystyrir ei bod yn ddymunol er mwyn diogelwch i gau'r llwybr mordwyo rhwng y Porthladd gweithredol i ardal o ddŵr nad yw bellach yn cael ei chynnal at y diben hwnnw.

11. Mae adran 58 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i Ddatganiad Polisi Morol y DU[2] a chynlluniau morol perthnasol wrth wneud penderfyniadau neu, yn yr achos hwn, i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sef y cynllun morol perthnasol a wnaed at ddibenion adran 51 o

---

[2] Datganiad polisi morol y DU - GOV.UK (www.gov.uk)

Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried gofynion adran 58 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Datganiad Polisi Morol y DU a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd nad yw'r Gorchymyn yn awdurdodi unrhyw ddatblygiad nac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â Datganiad Polisi Morol y DU nac unrhyw un o'r polisïau a geir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru.

12. Ystyrir bod y Gorchymyn yn cyflawni amrywiol amcanion a bennir yn Atodlen 2 i Ddeddf 1964, a nodir y rhain yn Atodiad I i'r llythyr hwn. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion a nodwyd gan yr Ymgeisydd ac amcanion pellach y mae swyddogion yn ystyried eu bod yn berthnasol.

**Gweithdrefn Ymgeisio**

13. Ar 2 Medi 2020, cyflwynwyd cais am y Gorchymyn i Lywodraeth Cymru gan Winckworth Sherwood LLP ar ran yr Ymgeisydd.

14. Hysbysebwyd hysbysiad o'r cais am y Gorchymyn yn y London Gazette ar 4 Medi 2020 a'r South Wales Evening Post ar 4 ac 11 Medi 2020. Cynhaliwyd ymgynghoriad 42 diwrnod rhwng 04 Medi 2020 ac 16 Hydref 2020.

**Ymgynghoriad**

15. Ym mis Medi 2020, hysbysodd Llywodraeth Cymru y rhestr ymgyngoreion yn Atodiad A o **'Gorchmynion Harbyrau: Canllaw i'r Gweithdrefnau yng Nghymru 2018'.**[3] Ceir crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law yn y tabl isod:

| **Sefydliad** | **Ymateb a dderbyniwyd** |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") | Ni chododd CNC unrhyw wrthwynebiad, ond fe wnaethant godi nifer o faterion yn ymwneud â gweithredu a rheoli ardal y Doc yn y dyfodol. |
| Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ("MCA") | Ni chododd yr Asiantaeth unrhyw wrthwynebiadau na phryderon, ond pwysleisiodd y dylai unrhyw reolaeth o'r Doc yn y dyfodol mewn perthynas â gweithgarwch hamdden gadw at y Cod a'i ganllaw arfer da. |

<u>CNC</u>

16. Ni chododd CNC unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn a dywedodd na fydd dileu'r cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Doc yn effeithio ar unrhyw Safleoedd Gwarchodedig Ewropeaidd neu Genedlaethol o fewn yr ardal dan sylw neu ardaloedd cyfagos. Fodd bynnag, gwnaethant nifer o sylwadau ynghylch rheoli'r Doc yn y dyfodol, gan gynnwys:

[3] Gorchmynion Harbyrau: Canllaw i'r Gweithdrefnau yng Nghymru 2018 (llyw.cymru)

(a) gwerth cynyddol y Doc fel amwynder cymdeithasol;
(b) pwysigrwydd cynnal y gwaith o drosglwyddo dŵr i'r Doc ac oddi yno er mwyn cynnal halwynder ac ansawdd y dŵr;
(c) yr angen i unrhyw newid defnydd yn y dyfodol ystyried materion bioddiogelwch posibl; a
(d) pwysigrwydd diogelu'r llwybr i ailgysylltu Camlas Tennant ag Afon Tawe drwy'r Dociau.

17. Mewn ymateb, dywedodd yr Ymgeisydd nad awdurdodi unrhyw ddatblygiad yw diben y Gorchymyn hwn; yn hytrach, bydd yn newid statws cyfreithiol y Doc ac yn dileu dyletswyddau a phwerau statudol yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r Doc. Byddai unrhyw bryderon sy'n ymwneud â datblygiadau posibl yn y dyfodol, neu newid defnydd a fyddai'n gofyn am ganiatâd o dan y gyfundrefn gynllunio, yn caniatáu i CNC wneud sylwadau adeg gwneud cais o'r fath. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd hefyd ei fod yn bwriadu cynnal y gallu i drosglwyddo dŵr a chynnal ansawdd dŵr i'r Doc ac oddi yno, ac na fyddai'r Gorchymyn yn atal ailgysylltu Camlas Tennant.

<u>MCA</u>

18. Cadarnhaodd yr Asiantaeth nad oedd ganddi unrhyw wrthwynebiadau i'w codi mewn perthynas â'r Gorchymyn ar y ddealltwriaeth bod y cynigion i gael eu cyflawni yn unol â'r Cod a'r Canllaw i Arfer Da ar Weithrediadau Morol Porthladdoedd[4]. Fodd bynnag, gofynnodd yr Asiantaeth pwy fyddai'n cymryd perchnogaeth dros reolaeth y Doc ac yn goruchwylio ei weithrediad diogel ar ôl ei gau.

19. Yn ei ymateb, cadarnhaodd yr Ymgeisydd y byddai angen caniatâd cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i’r gwaith sydd ei angen i gau'r Doc yn weithredol, a byddai hefyd yn ddarostyngedig i ofynion Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a fyddai'n ystyried sut y cymhwysir y Cod. Cadarnhawyd hefyd fod y gweithgareddau hamdden sy'n cael eu cynnal ar y Doc ar hyn o bryd yn cael eu gwneud o dan gytundeb gyda'r Ymgeisydd sy'n unol â gofynion y Cod. Byddai’r Ymgeisydd am weld y drwydded hon i weithredu (a rhwymedigaethau cysylltiedig) yn cael ei throsglwyddo i'r perchennog newydd wrth werthu'r Doc.

20. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd o fewn y cyfnod statudol o 42 diwrnod a nodwyd ar ei gyfer yn Atodlen 3 i Ddeddf 1964.

## Ystyriaeth Gweinidogion Cymru

21. Mae Gweinidogion Cymru yn nodi y caniateir i orchymyn gael ei wneud o dan adran 14 o Ddeddf 1964 mewn perthynas â harbwr sy'n cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli gan awdurdod harbwr wrth arfer a chyflawni pwerau a dyletswyddau statudol ar gyfer cyflawni'r cyfan neu unrhyw rai o'r amcanion a nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 1964.

22. Yn rhinwedd adran 14(2)(a) o Ddeddf 1964, ni chaniateir gwneud gorchymyn adolygu harbwr mewn perthynas â harbwr oni bai bod Gweinidogion Cymru yn fodlon bod cais ysgrifenedig priodol wedi'i wneud gan yr awdurdod sy'n ymwneud â'i wella, ei gynnal

4 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/854521/MCGA-Port_Marine_Guide_to_Good_Practice_NEW-links.pdf

neu ei reoli, neu gan berson y mae'n ymddangos iddynt fod ganddo fuddiant sylweddol neu gorff sy'n cynrychioli personau y mae'n ymddangos iddynt fod ganddynt fuddiant o'r fath.

23. Mae adran 14(2)(b) o Ddeddf 1964 yn nodi na chaiff gorchymyn adolygu harbwr ei wneud mewn perthynas â harbwr oni bai bod Gweinidogion Cymru yn fodlon bod gwneud y gorchymyn yn ddymunol er mwyn sicrhau bod yr harbwr yn cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli mewn modd effeithlon a darbodus, neu er mwyn hwyluso'r gwaith o gludo nwyddau neu deithwyr yn effeithlon ac yn ddarbodus ar y môr neu er budd defnydd hamdden o longau sy'n mynd i'r môr.

24. Mae adran 14(3) o Ddeddf 1964 yn nodi y caiff gorchymyn adolygu harbwr gynnwys yr holl ddarpariaethau sy’n ymddangos i Weinidogion Cymru yn ofynnol neu'n hwylus ar gyfer cyflawni effaith lawn unrhyw ddarpariaeth arall yn y gorchymyn ac unrhyw ddarpariaethau atodol, canlyniadol neu gysylltiedig y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn ofynnol neu'n hwylus at ddibenion y gorchymyn neu mewn cysylltiad â'r gorchymyn.

25. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod nad oes unrhyw ddefnydd presennol neu ddefnydd a ragwelir yn y dyfodol o'r Doc at ddibenion porthladd. At hynny, yr unig weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r Doc ar hyn o bryd yw’r gweithgarwch at ddibenion gweithgareddau chwaraeon dŵr, defnydd nad yw'n cael ei effeithio gan gau'r Doc. Felly, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cau'r Doc yn ofynnol i adlewyrchu amgylchiadau'r Porthladd, yn ddymunol er mwyn sicrhau bod y Porthladd yn cael ei wella, ei gynnal neu ei reoli mewn modd effeithlon a darbodus at ddibenion adran 14(2)(b) o Ddeddf 1964, ac yn unol â'r Cod.

26. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ystyried y sylwadau o sylwedd a godwyd gan CNC ac MCA, ac maent yn fodlon bod yr ymateb a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd.

**Penderfyniad Gweinidogion Cymru**

27. Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon bod y Gorchymyn yn bodloni gofynion adran 14(1) ac adrannau 14(2)(a) a 14(2)(b) o Ddeddf 1964. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn fodlon y cydymffurfiwyd â'r gofynion gweithdrefnol statudol.

28. Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon nad oes unrhyw wrthwynebiadau i'r cais am y Gorchymyn.

29. Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon am y rhesymau a nodwyd gan yr Ymgeisydd yn ei ddatganiad o gefnogaeth, ac a grynhoir uchod, fod gwneud y Gorchymyn (a phob un o ddarpariaethau'r Gorchymyn) yn ddymunol at ddibenion adran 14(2)(a) a (b) o Ddeddf 1964 ac y dylid eu gwneud. Mae Gweinidogion Cymru hefyd o'r farn bod rhai darpariaethau atodol, canlyniadol a chysylltiedig yn y Gorchymyn yn ofynnol ac yn hwylus ar gyfer cyflawni effaith lawn y Gorchymyn yn unol ag adran 14(3) o Ddeddf 1964.

30. Felly, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi gwneud y Gorchymyn, heb unrhyw ddiwygiadau sylweddol.

31. Mae Gweinidogion Cymru yn nodi nad yw'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn, felly nid yw'n ofynnol ei osod gerbron y Senedd.

**Cyfleu Penderfyniad**

32. Cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud, mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd gyhoeddi hysbysiad yn y Gazette a hysbyseb leol yn datgan bod y Gorchymyn wedi'i wneud a phennu man lle gellir archwilio copi o'r Gorchymyn ac unrhyw fap ar unrhyw adeg resymol, yn unol â darpariaethau Deddf 1964.

**Yr Hawl i Herio**

33. Caiff unrhyw berson sy'n dymuno cwestiynu gwneud y Gorchymyn ar y sail nad oedd pŵer i wneud y Gorchymyn neu na chydymffurfiwyd ag un o ofynion Deddf 1964 mewn perthynas â'r Gorchymyn, o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y daw'r Gorchymyn yn weithredol, wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

34. **Cynghorir person sy'n credu y gallai fod ganddo sail dros herio'r penderfyniad i wneud y Gorchymyn i ofyn am gyngor cyfreithiol cyn cymryd unrhyw gamau.**

Yn gywir,

*Carolyn Hughes*

**Carolyn Hughes**
Rheolwr Llywodraethu a Deddfwriaeth
National & International Connectivity | Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol
Welsh Government | Llywodraeth Cymru

<u>**Atodiad I**</u>

**Amcanion cymwys y caniateir i Orchmynion Adolygu Harbwr gael eu gwneud ar eu cyfer o fewn Deddf Harbyrau 1964, Atodlen 2**

<u>Paragraff 3:</u>

*Varying or abolishing duties or powers imposed or conferred on the authority "Amrywio neu ddiddymu dyletswyddau neu bwerau a osodir neu a roddwyd i'r awdurdod gan ddarpariaeth statudol o gais lleol sy'n effeithio ar yr harbwr, sef dyletswyddau neu bwerau a osodir neu a roddwyd at ddibenion—*

- a) *improving, maintaining or managing the harbour;*
- b) *marking or lighting the harbour, raising wrecks therein or otherwise making safe the navigation thereof; or*
- c) *regulating the carrying on by others of activities relating to the harbour or of activities on harbour land."*

<u>Paragraff 6:</u>

*"Settling (either for all purposes or for limited purposes) the limits within which the authority are to have jurisdiction or altering (either for all purposes or for limited purposes) such limits as previously settled."*

<u>Paragraff 8A:</u>

*"Enabling the authority to close part of the harbour or to reduce the facilities available in the harbour."*

<u>Paragraff 17:</u>

*"Any object which, though not falling within any of the foregoing paragraphs, appears to the appropriate Minister to be one the achievement of which will conduce to the efficient functioning of the harbour."*